



Cynllun Datblygu Unigol (CDU)



Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i wyth awdurdod lleol ymgymryd â'r broses o ddatblygu a threialu systemau newydd sy'n symlach ac yn ymateb yn gynt wrth ateb Anghenion Ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae'r cynllun peilot estynedig hwn yn y 'cam profi cadarn' ac mae teuluoedd yn yr ardaloedd treialu yn cymryd rhan yn y treialon hyn. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ganolog i'r cynigion i newid y ffordd yr ydym yn asesu ac yn ateb Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y CDU yn disodli'r Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ac y bydd yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr **0 i 25** oed. Mae'r newidiadau hyn yn adeladu ar yr arfer da presennol, a chant eu cyflwyno'n rhaddol.

Bydd y **CDU** yn **gynllun unigol** ac iddo fformat cyffredin a ddatblygir gan ddefnyddio camau cynllunio person-ganolog. Bydd pob CDU yn cynnwys **Cynllun Gweithredu** a'r dystiolaeth ar gyfer y gweithredoedd. Bydd yn annog gwaith allweddol lle bo angen ac yn defnyddio prosesau hyblyg. Gallai'r CDU ddisodli neu integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill (e.e. y Cynllun Addysg Unigol (CAU), y Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU), y Cynllun Addysg Personol (CAP) ar gyfer Plant sy'n derbyn Gofal (PDG) a hyd yn oed Cynlluniau Iechyd o bosib.

Bydd y Cynllun Datblygu Unigol yn defnyddio meddalwedd gwe diogel, y bydd teuluoedd a phobl broffesiynol briodol yn cael mynediad iddo gyda chaniatâd teuluoedd. Bydd hyn yn gwneud y CDU yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddiweddarau er mwyn ateb anghenion newidiol y plentyn neu'r person ifanc.

Pwy fydd yn derbyn CDU?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod unrhyw blentyn neu berson ifanc (0-25 oed) a chanddo/i anghenion dysgu ychwanegol ac sydd angen cymorth sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r hyn a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm arferol neu wahaniaethol, yn derbyn CDU.



Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr sydd mewn sefydliad Gweithredu yn yr Ysgol (a Mwy) / yn y Blynyddoedd Cynnar (a Mwy) ar hyn o bryd, yn ogystal â'r sawl a chanddo/i Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, anghenion meddygol neu anabledd.

Bydd yr holl blant a phobl yfanc sydd ganddynt ddatganiad AAA ar hyn o bryd hawl i gael CDU.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud i ffwrdd o wasanaethau addysg yn arwain y ffordd i un o bartneriaeth cyfartal rhwng gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol. Er mwyn adlewyrchu hyn, mae LI C bellach yn cynnig disgrifiad o Anghenion Ychwanegol (AY) yn lle'r termau 'Anghenion Addysgol Arbennig'(AAA) neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). I atgyferthu hyn mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod dyletswydd i gydweithredu ar y cyrff perthnasol.

Sut caiff y CDU ei ddatblygu?

Unwaith mae angen plentyn/person ifanc am gael CDU wedi'i nodi, bydd y cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (**ALNCo**)/**cydlynnydd cynorthwyol** yn dechrau ar y broses. Gallai'r person hwnnw fod yn Ymwelydd Iechyd mewn canolfannau Blynnyddoedd Cynnar. Bydd y cydlynnydd yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd ac yn **cydlynu cyfarfod arolwg er mwyn llunio'r CDU**. Gwahoddir y plentyn/person ifanc, rhieni a'r holl bobl broffesiynol briodol. Bydd disgwyl i'r cydlynnydd cymorth **gydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni (PPS)** a fydd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth bob cam o'r broses. Bydd y cyfarfod yn dilyn camau person-ganolog ac yn llunio **cynllun gweithredu y cytunir arno** ac a gaiff ei **adolygu o fewn isafswm o chwe mis** neu'n gynt os oes gofyn. I blant a chanddynt anghenion cymhleth, pennir **gweithiwr allweddol**.



Sut fydd CDU yn edrych?

Bydd y CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth fywgraffyddol ynghylch eich plentyn, manylion cyswllt ar eich cyfer chi ac unrhyw bobl broffesiynol berthnasol.
- Bydd eich safbwyntiau chi a safbwyntiau eich plentyn yn cael eu cofnodi ar **'broffil un dudalen'**, yn manylu ar yr hyn sy'n **'bwysig i'ch plentyn'** a **'sut i gefnogi eich plentyn'** nawr ac yn y dyfodol.
- **Cwestiynau i'w gofyn/materion i'w datrys**
- Bydd y CDU yn cofnodi **'yr hyn sy'n gweithio i'ch plentyn'** a'r **'hyn nad yw'n gweithio'** gan gynnwys unrhyw drefniadau cymorth
- **Cynllun gweithredu** a fydd yn amlinellu popeth y mae ei angen ar eich plentyn i gyflawni'r nodau a gytunwyd. Bydd hyn yn cynnwys beth a gyflwynir, gan bwy a pha mor aml y'i cyflwynir. Bydd hefyd yn cynnwys pwy fydd yn gyfrifol am gael mynediad i'r cymorth a phryd fydd y cynllun yn cael ei adolygu.

Caiff y wybodaeth ei choladu a'i huwchlwytho i'r wefan ddiogel, lle y bydd yn weladwy ac yn hygyrch i'ch teulu a phobl briodol â chaniatâd yn unig.

Hoffi ac edmygu...

Dyma ran bwysicaf yr arolwg lle mae pawb yn ysgrifennu beth maen nhw'n ei hoffi ac yn ei edmygu ynghylch y plentyn/person ifanc. Mae hyn yn ganolog i'r broses PCP, y Proffil Un Dudalen, ac yn bennaf oll, datblygiad y CDU. Gall yr adran hon yn cynnwys ffotograffau a darluniau ac ati.

'Beth sy'n bwysig i' a 'sut i gefnogi....'

Bydd hyn yn cynnwys y pethau y mae'r person am iddynt ddigwydd yn y dyfodol yn ogystal â'r pethau sydd eisoes yn digwydd a beth mae pawb yn credu sy'n bwysig ar gyfer y person.

Cwestiynau i'w gofyn / materion i'w datrys

Pethau nad ydynt yn digwydd i'r plentyn/person ifanc, gan gynnwys gwahaniaethau barn rhwng pobl sydd ynghlwm wrth fywyd y person. Unrhyw beth nad yw'n gwneud synnwyr ac unrhyw beth ychwanegol neu wahanol y gall fod ei angen ar y person.

Beth sy'n gweithio? Beth sydd ddim yn gweithio?

Persbectif y person, persbectif y teulu, persbectif pobl eraill e.e. yr ysgol, therapydd lleferydd, neu bobl broffesiynol eraill.

Cynllun Gweithredu

Bydd hyn yn cynnwys yr hyn nad yw'n gweithio, cwestiynau i'w gofyn, materion i'w datrys a.y.b... ac yn manylu ar yr hyn y mae angen iddo gael ei ddarparu, pwy fydd yn sicrhau y bydd yn digwydd, pryd caiff ei gwblhau, pryd caiff ei adolygu... a chan bwy.

<i>beth</i>	<i>pwy</i>	<i>pryd</i>	<i>meini prawf llwyddiant</i>	<i>arolwg</i>
Beth sydd angen ei wneud?	Pwy fydd fydd yn ei wneud?	Erbyn pryd y caiff ei wneud?	Sut y byddwn yn gwybod os yw'n llwyddianus?	Pwy fydd yn ei wirio a phryd?

Sut fyddwn ni'n gwybod os yw CDU yn llwyddiannus?

Rhagwelir y bydd pob CDU yn cynnwys cynllun gweithredu clir, a gaiff ei adolygu'n o leiaf ynwaith bob chwe mis gan y sawl sy'n cyfrannu ato. Bydd y CDU yn dasg gydweithredol a gaiff ei chwblhau gan y sawl sy'n adnabod y plentyn orau, gan cynnwys phobl broffesiynol briodol; dylai hyn arwain at gonsensws, a chynllun gweithredu priodol.

Os yw'r teulu neu'r person ifanc yn anghytuno â'r deilliannau a'r cynllun gweithredu, bydd modd iddynt **gofrestru'r anghytundeb hwn yn ffurfiol gyda'r Awdurdod Lleol**. Os yw hyn yn digwydd, bydd unrhyw sefydliadau sydd ynghlwm wrtho – ysgolion, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a.y.b. – yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddatrys yr anghytundeb gyda'r plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Bydd y **Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni yng Nghymru, SNAP Cymru**, yn cefnogi teuluoedd drwy gydol y broses, gan gynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth gwaith allweddol lle bo gofyn, a bydd cyfryngwyr sydd wedi'u hyfforddi yn hwyluso'r broses o **ddatrys anghytundeb annibynnol ffurfiol**.

Cynigir ar hyn o bryd os na chaiff yr anghytundeb ei ddatrys o fewn un mis, bydd gan deuluoedd yr hawl i apelio gerbron Tribiwnlys AAA ac Anabledd Cymru.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys prosesau ar gyfer datrys anghytundebau, amserlenni a meini prawf ar gyfer apelio a chanllawiau ar gyfer arfer da yn cael ei gynnwys mewn cod ymarfer AY newydd i gael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf.



Ynghylch Snap Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni yng Nghymru ac yn cynnig gwybodaeth gywir, a chyngor, cefnogaeth a gweithwyr allweddol sy'n ddi-duedd i deuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt, neu a all fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig a/neu anabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP hefyd yn darparu gwasanaeth datrys anghytundebau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol yn seiliedig ar faterion, i blant a phobl ifanc.

I gael cefnogaeth neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n:

Llinell Gymorth ar 0845 120 3730

neu ein gwefan www.snapcymru.org